

Cymru: Cenedl o Ddarllenwyr

Cynllun strategol
5 mlynedd 2022-27



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

EIN GWELEDIGAETH

Cymru: Cenedl o Ddarllenwyr

Ry'n ni eisiau Cymru lle mae pob un ohonom wedi dod o hyd i'r union lyfr; y geiriau'r ydyn ni'n gwirioni arnyn nhw, sy'n ein hysbrydoli, ein haddysgu, a gwneud i ni deimlo'n well. Lle mae'r bobl sy'n rhan o'n sector yn dod â syniadau'n fyw, yn cysylltu creadigrwydd a busnes i gyflwyno straeon i ni sy'n amlochrog, yn adlewyrchu yr hyn yw Cymru yn ei chyfanrwydd ac yn canu cloch gyda phawb. I uno i wneud un peth: i ddarllen mwy a chyflawni mwy.

EIN CENHADAETH

Ein cenhadaeth yw cefnogi a hyrwyddo'r sector llyfrau yng Nghymru. Gwnawn hyn:

- ▶ trwy ddarparu cyfeiriad strategol sy'n cael ei lywio gan gyd-destun Cymru ddwyieithog sydd â chysylltiad agos â'r diwydiannau cyhoeddi ym Mhrydain ac yn fyd-eang;
- ▶ trwy ddarparu gwasanaethau a grantiau, wedi'u hanelu'n benodol at anghenion amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan sicrhau cynnwys amrywiol yn y ddwy iaith;
- ▶ trwy barchu annibyniaeth olygyddol wrth ymgynhyrchu at ragoriaeth ac arloesedd;
- ▶ trwy hyrwyddo pwysigrwydd a grym trawsnewidiol darllen er pleser.

EIN PWRPAS

Rydym ni yma i sicrhau bod gan Gymru ddiwydiant cyhoeddi llewyrchus ac y gall y bobl sy'n byw yma weithio yn ein sector neu elwa ar yr ymdrechion creadigol a wneir yng Nghymru, er mwyn pobl Cymru. Fel sefydliad dielw, mae unrhyw incwm masnachol a godwn trwy ddarparu gwasanaethau yn cael ei fuddsoddi yn ôl yn y sector yr ydym yn ei wasanaethu, yn bennaf trwy gymorthdaliadau anuniongyrchol i'r diwydiant. Wrth gefnogi sector sy'n cynnwys micro-fentrau a masnachwyr unigol yn bennaf, rydym yn defnyddio ein gallu a'n harbenigedd i fod yn gyfrwng ar gyfer cysylltiadau traws-sector, i rannu ein dealltwriaeth o'r cyd-destun diwylliannol ac economaidd ehangach lle bo hynny'n berthnasol, i fod yn eiriolwr dros werth ein sector ac i ddangos y cyfraniad y mae'n ei wneud. Er bod datblygu talent a chreadigrwydd yn greiddiol i ymdrechion y sector, ein prif bwrpas yw cefnogi'r ecosystem lyfrau yn ei chyfanrwydd, system sydd wedi ei gwreiddio yn economi sylfaenol Cymru.

Mae ein sector yn rhan o ddiwydiant cyhoeddi'r Deyrnas Unedig, y mwyaf o'i fath yn y byd, sy'n cyhoeddi c. 250,000 o lyfrau bob blwyddyn ac sydd dan ddylanwad corfforaethau rhwyngwladol mawr. Mae gan yr arian a dderbyniwn yn flynyddol oddi wrth Lywodraeth Cymru, ar ôl cyflwyno ein cynllun gweithredol, bwrpas penodol felly, sef mynd i'r afael

â dau fath gwahanol iawn o fethiant yn y farchnad: nid yw'r farchnad fasnachol ar gyfer teitlau Cymraeg yn ddigon mawr i ddarparu cynnyrch digon amrywiol ac felly mae angen cefnogaeth strwythurol arni, fel sy'n wir am ieithoedd lleiafrifol eraill ledled y byd. Mae'r rhesymau dros ddarparu cefnogaeth i'r hyn a ddisgrifir fel 'Wales in English', sef cynnwys sy'n mapio bywyd hanesyddol, diwylliannol a gwleidyddol y genedl yn Saesneg, yn wahanol iawn. Yn gyffredinol, nid yw'r deunydd hwn yn cael ei ystyried yn ddeniadol iawn yn fasnachol ac anaml y bydd yn cael ei gomisiynu na'i gyhoeddi gan gyhoeddwyr y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn arwain at ddiffyg cyfleoedd cyhoeddi, yn enwedig ar gyfer lleisiau newydd, ond hefyd ar gyfer awduron cydnabyddedig. Mae cyllid ar gyfer llyfrau Saesneg yn ceisio gwrthweithio'r diffyg diddordeb ac arbenigedd hwn, trwy fuddsoddi mewn busnesau y mae eu bodolaeth gyfan yn dibynnu ar gyhoeddi am Gymru.




EIN GWERTHOEDD

Credwn

- ▶ yng ngrym trawsnewidiol darllen er pleser a'i fod yn cael effaith gadarnhaol ar ein lles, ein hiechyd meddwl, ein cyrhaeddiad addysgol, a'n cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol
- ▶ mewn cefnogi sector cyhoeddi sy'n agored a chroesawgar ac sy'n ffynnu ar greadigrwydd a chydweithio, gan gynhyrchu cynnwys o safon sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i fywydau pobl a'r economi sylfaenol yng Nghymru
- ▶ fod angen i ni fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu'r sector i ddenu'r bobl, y sgiliau a'r profiadau sy'n adlewyrchu Cymru gyfan
- ▶ fod diwylliannau ac ieithoedd amrywiol Cymru yn cyfoethogi pob agwedd ar ein bywydau a'n cymunedau
- ▶ y dylai pawb gael mynediad at lyfrau a chylchgronau mewn fformatau print, digidol neu sain waeth beth fo'u gallu i'w fforddio
- ▶ fod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom ac yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd, ein treftadaeth a'n diwylliant
- ▶ fod straeon niferus ac amlochrog Cymru yn ein cysylltu ni â'r byd ehangach ac yn ein helpu i hyrwyddo ein cenedl yn Ewrop ac yn fyd-eang.

EIN HUCHELGAIS A’N BLAENORIAETHAU

Mae gennym bum uchelgais gyffredinol sy’n llunio blaenoriaethau ein cynllun strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Wedi’u llywio’n uniongyrchol gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a’r Nodau Llesiant, mae’r blaenoriaethau hyn i gyd wedi’u cysylltu gan themâu allweddol sy’n effeithio ar y rhan fwyaf os nad y cyfan o’r gweithgareddau a gefnogwn ac yn dylanwadu ar beth yr ydym yn ei gyllido a sut yr ydym yn dyfarnu cyllid, ac yn darparu fframwaith i fesur ein heffaith.



EIN HUCHELGEISIAU

1. Mae'r cynnwys a'r gweithgareddau a gefnogir gennym yn adlewyrchu Cymru

Blaenoriaethau

Sut beth yw llwyddiant?

Cefnogi cyhoeddwr sy'n gallu dangos eu hymrwymiad i fuddsoddi mewn cynnwys, awduron a fformatiau amrywiol	Cynnwys Saesneg sy'n adlewyrchu holl amrywiaeth Cymru; yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg a Saesneg; yn amrywiol yn ddaearyddol ac o ran themâu; yn ysbyrydoli darllenwyr o bob oed; yn cefnogi'r agenda darllen er pleser	Cynnwys Cymraeg sy'n adlewyrchu holl amrywiaeth Cymru; yn rhoi'r dewis ehangaf posibl i ddarllenwyr; o ansawdd rhagorol gan adlewyrchu arferion darllen gwahanol darllenwyr o bob oed yn ogystal â'u gallu i ddarllen a'u diddordebau	Mae aelodaeth yr Is-bwyllgorau yn amrywiol ac yn adlewyrchu Cymru yn yr ystyr ehangaf er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud
Buddsoddi mewn gallu cynhenid i ddatblygu cynnwys a wneir yng Nghymru nad yw ond yn cael ei ategu gan addasiadau lle maen nhw'n diwallu anghenion strategol a nodwyd	Grantiau sy'n cefnogi cynnyrch ac iddo ganlyniadau gweladwy gan flaenoriaethu cynnwys sy'n sicrhau cynrychiolaeth deg yn y ddwy iaith; y cynnyrch yn cyrraedd y cynulleidfaoedd a fwriadwyd ar ei gyfer drwy ymgyrchoedd wedi'u teilwra ac ymgysylltu wedi'i dargedu	Mae gweithgareddau estynedig fel y Gystadleuaeth ar gyfer Darlunwyr Ifanc wedi meithrin a datblygu talent newydd ar gyfer cynhyrchu llyfrau lluniau gwreiddiol	Mae cysylltiadau cryfach gydag Addysg Bellach ac Addysg Uwch (darlunio, ysgrifennu creadigol ayb) wedi cynorthwyo i ddatblygu talent; gyrfa ym maes cyhoeddi yn cael ei hyrwyddo fel llwybr gyrfaal dichonadwy
Annog a gwobrwyo cymryd risgiau ac arbrofi, yn enwedig lle mae bylchau y gellir eu hadnabod	Ymyriadau strategol arloesol a wneir ar y cyd â phartneriaid eraill yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â bylchau penodol yn y ddarpariaeth; cyhoeddwr wedi'u hyfforddi i fynd i'r afael â'r bylchau hyn	Cynnydd mesuradwy a sylweddol yn y grantiau a dderbynnir gan gyfranogwyr newydd	Addasu'r cysyniad o 'fethiant deallus' sy'n derbyn nad yw pob gweithgaredd a gefnogir yn arwain at y canlyniadau a ddymunir, ond y gallant gynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu ac i ddatblygu ymhellach
Archwilio a herio pŵer y sawl sydd mewn sefyllfa o ddylanwad (<i>power of encumbency</i>)	Mae'r pŵer hwn yn cael ei herio ym mhob proses dendro; mae canllawiau a chyfansoddiad y panelau'n gorfodi'r egwyddor hon; caiff tendrau eu hysbysebu mewn ffyrdd sy'n ddeniadol i ymgeiswyr newydd ac amrywiol	Diwylliant o hunanfyfyrdod yn y gweithle wedi'i ymgorffori yn y diwydiant; hyfforddiant parhaus ar ragfarn anymwybodol, gwrth-hiliaeth, ymwybyddiaeth anableded ar gyfer y rhai sy'n derbyn grantiau	Parhau i wneud penderfyniadau agored a thryloyw; egwyddorion cytundebau diwylliannol wedi'u mabwysiadu a'u hymgorffori gan bartneriaid a ariennir

EIN HUCHELGEISIAU

2. Mae ein diwydiant yn llwyddiannus ac yn gweithredu mewn modd ymatebol

Blaenoriaethau

Sut beth yw llwyddiant?

Modelau busnes sy'n hyblyg ac ystwyth ac nad ydynt yn dibynnu'n llwyr ar grantiau i gyhoeddi cynnwys	Cynnwys yn cael ei brisio yn ôl cyfraddau'r farchnad; yn adlewyrchu gostyngiadau safonol y diwydiant er mwyn aros yn gystadleuol	Adolygu rheolaidd ar hyfywedd ariannol y busnes i sicrhau mai dim ond busnesau cynaliadwy a gaiff eu hariannu	Y busnes yn rhagweithiol wrth geisio nawdd masnachol, cyllidwyr eraill o'r trydydd sector neu ymgyrchoedd cyllido torfol ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol ag ymgyrchoedd cenedlaethol
Busnes sy'n arddangos ymrwymiad tymor hir i bob cymuned yng Nghymru ac yn cymryd camau pendant i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth	Cynnydd mesuradwy a sylweddol o blith grwpiau o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cael eu cyflogi neu'n gweithio ar eu liwt eu hunain yn y sector; mwy o gynrychiolaeth ar fyrddau, pwyllgorau a phanelau	Cyfathrebu a gwerthoedd brand yn dangos bod y sector yn agored ac yn groesawgar i bawb	Mae cynnwys perthnasol a ariennir yn cael ei farchnata a'i werthu'n rhyngwladol ac yn creu ffrydiau incwm newydd i gyhoeddwyr
Cwmnïau sy'n buddsoddi mewn datblygu talent, sgiliau a hyfforddiant, e.e. prentisiaethau, ac yn parchu'r bobl sy'n cyfrannu at eu llwyddiant	Diwydiant sy'n talu'n ddigonol er mwyn denu'r dalent orau; sy'n cofleidio cyflog teg ac amodau gwaith da	Diwydiant sy'n cael ei ystyried yn broffesiwn bywiog, lle mae hyfforddiant ar gael er mwyn meithrin pob talent, yn cynnwys marchnata, cyllid, rheoli prosiectau a TG	Mae'r diwydiant yn ymgysylltu'n llawn â'r agenda darllen er pleser; yn blaenoriaethu cyfathrebu a rheoli stoc effeithiol i hwyluso ymgyrchoedd cenedlaethol rhoi llyfr yn anrheg
Busnes sy'n rhoi cydweithio o flaen cystadlu, yn deall cyd-ddibyniaeth y gadwyn gyflenwi gyfan ac yn parchu'r holl bartneriaid o'i mewn	Cylch gwaith estynedig ar gyfer dau sefydliad o fewn y sector, Cwlwm Cyhoeddwyr a Cyhoeddi Cymru/ Publishing Wales, o ran hyfforddiant ac arddangos rhyngwladol	Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llyfrwerthwyr y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, sefydlu corff rhyngweithio a lobïo ar gyfer llyfrwerthwyr yng Nghymru	Mae ymgyrchoedd wedi galluogi'r sector i ymddwyn yn fwy cydweithredol; asedau digidol sy'n cefnogi'r holl randdeiliaid yn y gadwyn gyflenwi
Cwmnïau sy'n parhau i addasu ac arloesi i wneud y mwyaf o'r potensial digidol, gan weithio tuag at ddatgarboneiddio a sicrhau strwythurau TG cadarn	Mae e-lyfrau a llyfrau llafar wedi'u hymgorffori'n llawn fel gweithgaredd cyhoeddi craidd ac yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd	Cyfleusterau Argraffu-ar-Alw yng Nghymru wedi'u hymgorffori'n llawn a'u hawtomeiddio o fewn y gadwyn gyflenwi	Buddsoddiad mewn technoleg a systemau newydd; achrediad seiberddiogelwch ar gyfer pawb sy'n derbyn grantiau mawr

EIN HUCHELGEISIAU

3. Mewn cenedl o ddarllenwyr gall pawb fod yn ddarllenydd

Blaenoriaethau

Sut beth yw llwyddiant?

Eiriol dros gael Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r cynllun i roi llyfr yn anrheg yn flynyddol i ysgolion ledled Cymru fel blaenoriaeth ariannu craidd	Pob ysgol i dderbyn casgliad blynyddol wedi'i guradu o lyfrau Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob cyfnod allweddol er mwyn sicrhau mynediad teg ar draws y ddwy iaith	Sefydlu panel arbenigol i ddewis rhestr flynyddol o lyfrau darllen er pleser yn y Gymraeg a'r Saesneg (yn unol â blaenoriaethau Cwricwlwm Cymru) i hyrwyddo a chynyddu ymgysylltiad â darllen ym mhob ysgol yng Nghymru	Mae'r rhestrau llyfrau sydd wedi'u curadu yn ymateb i anghenion penodol a byddant yn cynnwys deunydd gwreiddiol o Gymru, addasiadau i'r Gymraeg a llyfrau ar themâu penodol i fynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol
Prosiect 'Blwyddyn Darllen' cenedlaethol	Wedi'i gynhyrchu ar y cyd â chymunedau lleol a phartneriaid yn y ddwy iaith, gyda sylw arbennig i gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol	Cynnydd mesuradwy mewn gweithgareddau darllen, dathliadau, gwyliau, gan ddarparu ar gyfer pob ystod oedran drwy hwyluswyr lleol	Gwaddol sylweddol y gellir ei fesur o ran arferion darllen y cyfranogwyr a welir drwy werthuso'r dystiolaeth
Ymestyn partneriaethau gyda llyfrgelloedd, hwyluso cysylltiadau gydag ysgolion a mynediad at lyfrau	Cydweithio â rhanddeiliaid yn cynnwys awdurdodau lleol i greu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Llyfrgelloedd Ysgolion Gwych Cymru	Cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth llyfrgelloedd ysgolion yng Nghymru er mwyn nodi'r ddarpariaeth a'r anghenion presennol, yn cynnwys cronfa ddata ar gyfer y rhwydwaith	Rhaglenni gweithgaredd estynedig (e.e. digwyddiadau awdur, Sialensau Darllen Ysgolion, Stori Sydyn, Diwrnod y Llyfr, Sialens Ddarllen yr Haf y Llyfrgelloedd ayb) gyda chynnydd yn y cyrhaeddiad a'r ymgysylltu rhanbarthol
Partneriaethau gyda sefydliadau chwaraeon i ddatblygu rhaglen ymgysylltu â darllen er mwyn cyrraedd oedolion	Cynnwys wedi'i gynhyrchu ar y cyd yn y ddwy iaith sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn dilyn holiaduron i aelodau clybiau, i ganfod eu harferion darllen presennol a chanfod cyfleoedd a bylchau yn y ddarpariaeth bresennol	Cyflwyno rhaglen o weithgareddau ymgysylltu arloesol yn canolbwyntio ar fodolau rôl sy'n dathlu a hyrwyddo gwerth darllen	Gwaddol o well cydlynid a chydgyssylltiad cymunedol ar draws y ddwy iaith drwy rwydwaith estynedig o glybiau llyfrau

EIN HUCHELGEISIAU

4. Cymraeg i Bawb

Blaenoriaethau

Sut beth yw llwyddiant?

Parhau i sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn berthnasol ar draws yr oedrannau drwy sicrhau cynnwys amlweddol a llawn amrywiaeth, yn enwedig ar gyfer darllenwyr sy'n oedolion	Cefnogaeth barhaus i fentrau cyhoeddi newydd trwy ddenu cyhoeddwr llyfrau a chylchgronau newydd	Cefnogaeth barhaus i hyfforddi ac uwchsgilio golygyddion ac i arwain at bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol yn dod i mewn i'r proffesiwn	Mwy o amrywiaeth yn y gweithlu o olygyddion comisiynu drwy gynlluniau megis interniaethau â thâl neu hyfforddiant arall
Cefnogi darpariaeth y cwricwlwm newydd drwy ganolbwyntio ar strwythurau sy'n bodoli ac yn cael eu hariannu eisoes yng Nghymru	Rhoi modelau profedig ar waith i ddarparu cynnwys addysgol mewn fformatiau amrywiol a hynny'n deg ar draws y ddwy iaith	Wedi llwyddo i eiriol dros ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer adnoddau sy'n cefnogi'r Gymraeg fel ail iaith	Cynnwys wedi ei gomisiynu i lenwi bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth Gymraeg mewn meysydd pwnc craidd ac mewn cynrychiolaeth 'Cymru yn Saesneg'
Parhau i fuddsoddi mewn teitlau hamdden sy'n cynorthwyo oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg i gyflymu'r broses o gaffael iaith	Rhagor o gydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan sicrhau bod safonau cenedlaethol yn cael eu dilyn yn fanwl	Comisiynu cynnwys sy'n berthnasol i ddysgwyr wedi ei ymgorffori'n llwyr mewn rhaglenni a ariennir	Ymchwil rheolaidd i gynulleidfaoedd newydd drwy gydweithio'n agos â sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg
Parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau newyddion Cymraeg	Y rhan fwyaf o'r cynnwys yn wreiddiol ac nid wedi'i gyfieithu	Llwyddo i gyrraedd mwy o bobl iau a chymunedau amrywiol drwy ddefnyddio sianelau cyfathrebu arloesol	Cydweithio'n agosach â phartneriaid fel S4C a'r BBC

EIN HUCHELGEISIAU

5. Mae ein cysylltiadau â chymunedau yn eu gwneud yn wydn ac yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau presennol

Blaenoriaethau

Sut beth yw llwyddiant?

Cydgynhyrchu a pheilotu mentrau hyrwyddo darllen gyda chymunedau ar draws Cymru	Wedi ymgysylltu â grwpiau cymunedol a'u galluogi i arwain rhaglenni a grëwyd ar y cyd	Wedi gweithio gyda phartneriaid newydd i ddeall a mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro darllen mewn ystod o gynulleidfaoedd sy'n flaenoriaeth gennym	Wedi cynyddu'r cysylltiad â busnesau lleol sy'n gweithredu fel noddwyr, a chreu cyfleoedd i godi arian
Buddsoddi mewn ymchwil a gwerthuso ynghylch beth sy'n gweithio ymhle a pham er lles prosiectau'r dyfodol	Mae'r ymchwil yn seiliedig ar egwyddorion arferion gorau	Caiff y canfyddiadau perthnasol eu gweithredu mewn modd mesuradwy ac amserol	Mae pob prosiect wedi ei werthuso naill ai'n allanol neu'n fewnol a chaiff y gwersi eu rhannu â'n partneriaid
Creu partneriaethau â threfnwyr cymunedol, darparwyr gwasanaethau a busnesau	Cynyddu ein cydweithrediad â phartneriaid fel y cymdeithasau tai, y Mentrau Iaith a Thrafnidiaeth Cymru er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd	Llwyddo i roi llwyfan i lyfrwerthwyr annibynnol fel hybiau cymunedol ac fel rhan allweddol o adfywio canol trefi	Mae cydweithio â Cyfuno/Fusion wedi cynyddu cyrhaeddiad y cynllun Stori Sydyn/Quick Reads yn y gymuned

THEMÂU CYSYLLTIOL ALLWEDDOL



Arferion Iach

Roedd yr effaith gadarnhaol y mae darllen yn ei chael ar iechyd meddwl a lles wedi'i chofnodi'n fanwl eisoes, ond pwysleisiodd argyfwng COVID y buddion hyn ymhellach. Mae'r arfer o ddarllen yn gwella'r cof a'n gallu gwybyddol, ac yn cael mwy o effaith ar gyrhaeddiad addysgol na chefnidir economaidd-gymdeithasol, gan wella cyfleoedd bywyd pobl mewn ffyrdd go iawn. Mae'r gallu i ddarllen felly yn sylfaenol ar gyfer creu dinasyddion sy'n cofleidio dysgu gydol oes, a chredwn y dylai dysgu darllen fod yn ganolog i'r cwricwlwm newydd ac y dylai'r athrawon eu hunain ddod yn ddarllenwyr brwd. Mae darllen hefyd yn gonglfaen ar gyfer caffael iaith gan ei fod yn datblygu geirfa a hyder dysgwyr Cymraeg o bob oed. Profwyd bod darllen yn darparu'r ysgogiad meddyliol sy'n gallu arafu datblygiad Alzheimer's a dementia.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Nid yw cyfansoddiad presennol y diwydiant llyfrau, fel llawer o ddiwydiannau creadigol eraill, yn adlewyrchu ein cymdeithas yn ddigonol. Mae rhwystrau strwythurol fel diffyg mynediad i ddiwydiant sy'n orddibynol ar rwydweithiau anffurfiol yn cael eu gwneud yn waeth gan ddiffyg enghreifftiau gweladwy o unigolion o gymunedau a dangynrychiolir. Rydym yn gobeithio addasu dulliau cydnabyddedig, fel interniaethau â thâl wedi eu neilltuo i grwpiau penodol neu gymorth cychwynnol i ymsefydlu, er mwyn cynyddu cynrychiolaeth yn ein diwydiant. Mae cynyddu cynrychiolaeth yn ein holl strwythurau yn flaenoriaeth allweddol. Fel elusen rydym yn naturiol yn dibynnu ar gyfraniad sylweddol gwirfoddolwyr i wneud penderfyniadau ariannu teg a diduedd. Fodd bynnag, lle bo gwaith di-dâl yn rhwystr sylweddol i ddarparu aelodau o is-bwyllgorau byddwn yn ystyried gwneud iawn am golli enillion a darparu offer TG i'w galluogi i gymryd rhan.

Digidol vs Argraffu?

Mae'r diwydiant cyhoeddi wedi cael ei drawsnewid yn gyflym yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, ond yn wahanol i'r diwydiant cerddoriaeth mae ei sylfeini o hyd mewn model hybrid lle mae allbynnau ffisegol a digidol yn dal i fod yr un mor berthnasol. Mae arloesi digidol wedi caniatáu i rai o'r cyhoeddwywr presennol arbrofi a dod o hyd i ffrydiau incwm newydd, ac mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn parhau i ddod yn gynyddol bwysig wrth gysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Mae fformatiau digidol yn chwarae rhan bwysig wrth gynyddu hygyrchedd. Ar yr un pryd, mae gwerthiant teitlau print yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu'n ddramatig wrth i ddefnyddwyr geisio seibiant o weithio a dysgu ar sgrin. Mae llyfrgelloedd yn dal i ddibynnu'n arw ar deitlau print i ddarparu gwasanaethau cymunedol gan fod benthyca digidol yn parhau i fod yn ddrud ac yn llawn anawsterau. Amcangyfrifir bod 10% o aelwydydd yng Nghymru wedi'u cau allan yn ddigidol a bod y rheini sydd mewn tai cymdeithasol yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

Yr Argyfwng Hinsawdd a Natur

Mae'r diwydiant cyhoeddi yn chwarae rhan allweddol wrth ledaenu gwybodaeth o ansawdd ac yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at greu dinasyddion hyddysg. Mae'r diwydiant wedi dechrau datgarboneiddio ei gadwyn gyflenwi, ond mae angen gwneud mwy ac rydym wedi ymrwymo i wella ein perfformiad ymhellach gyda'r nod, yn y pen draw, o gyrraedd statws digarbon. Ar yr wyneb, gall cynnwys digidol ymddangos yn ddewis mwy cyfeillgar i'r amgylchedd na llyfrau a chylchgronau print ond mae rhai arbenigwyr cylch bywyd yn nodi bod yr ynni, y dŵr a'r deunyddiau crai sydd eu hangen i wneud un e-ddarllenrydd yn cyfateb i 40 i 50 o lyfrau, tra bod yr allyriadau a grëir gan un e-ddarllenrydd yn gyfwerth â thua 100 o lyfrau. Ystyriaethau eraill yw hirhoedledd profedig llyfrau print, y ffaith fod modd eu rhannu'n hawdd, eu hailddefnyddio a'u hailgylchu, a'r ciwiau gofodol a chyffyrddol a geir o ddeunyddiau printiedig, sy'n arwain at well dealltwriaeth a'r gallu i amsugno mwy o gynnwys.

EIN SWYDDOGAETHAU

Rydym yn gorff datblygu, yn gyllidwr, yn ddarparwr gwasanaethau, yn asiantaeth hyrwyddo darllen, ac yn eiriolwr.

Datblygu

Rydym yn darparu'r cyfeiriad strategol i bennu blaenoriaethau cyllido gan dynnu ar yr arbenigedd ynglŷn â'r sector sy'n perthyn i'n cyd-weithwyr a'r 50 a rhagor o wirfoddolwyr sy'n cyfrannu at ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, ein his-bwyllgorau a'n panelau beirniadu. Eu dealltwriaeth ddofn nhw o anghenion penodol a gwahanol y ddwy garfan ieithyddol sy'n llywio eu trafodaethau a'u penderfyniadau. Rydym hefyd yn cydlynu ymyriadau strategol i fynd i'r afael â bylchau penodol yn y ddarpariaeth, er enghraifft, ailgyhoeddi clasuron (Library of Wales), llyfrau ar gyfer dysgwyr Cymraeg (Amdani), a llyfrau ar bresgripsiwn yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles (Darllen yn Well).

Cyllido

Rydym yn dosbarthu cyllid i'r diwydiant cyhoeddi ar ran Llywodraeth Cymru. Mae ceisiadau am gyllid ar gyfer cynnwys print a digidol, llyfrau, cylchgronau a phlatformau yn cael eu trafod a'u penderfynu gan is-bwyllgorau annibynnol, ac mae adroddiadau darllenwyr allanol neu asesiadau arbenigol ar gyfer marchnata yn cynorthwyo'r broses benderfynu.

Gwasanaethau

Mae'r gwasanaethau a ddarparwn yn cefnogi'r diwydiant yn ei gyfanrwydd mewn ymateb i ddiffyg capasiti o fewn y sector, ac fel rheol fe'u darperir ar sail cost er bod y gost honno wedi ei sybsideiddio – er enghraifft, gwasanaeth warws, dosbarthu, gwerthu, golygu, dylunio, llwyfannau digidol a rheoli data. Mae'r holl elw o'r gwasanaethau a ddarperir yn cael ei ailfuddsoddi yn y sector.



Hyrwyddo Darllen

Mewn partneriaeth ag elusennau eraill yng ngwledydd Prydain, rydym yn cyflwyno rhaglenni a gweithgareddau hyrwyddo darllen ledled y Deyrnas Unedig fel Diwrnod y Llyfr, Sialens Ddarllen yr Haf neu Ddiwrnod Empathi trwy sicrhau cynigion dwyieithog a thriniaeth deg o'r Gymraeg a'r Saesneg.

Eiriolaeth a Dylanwadu

Rydym yn angerddol am y diwydiant a wasanaethwn a gallwn ddangos bod llyfrau o fudd uniongyrchol i sectorau creadigol eraill trwy ddarparu'r straeon sy'n cael eu troi'n ddramâu, ffilmiau, perfformiadau, cynrychiadau teledu a gemau. Rydym yn gweithio gydag eraill sy'n rhannu'r gred hon i godi proffil llyfrau fel nwyddau diwylliannol sy'n cael effaith gadarnhaol ar addysg, iechyd, y Gymraeg a'r economi.



GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Un rhan yn unig o ecosystem llenyddiaeth a llyfrau Cymru yw ein sefydliad ni, ac felly mae partneriaethau effeithiol yn ganolog i'n llwyddiant. Mewn ymateb i gylch gorchwyl eang iawn mae ein cylch o bartneriaid yr un mor eang, ond rydym yn canolbwyntio ar **nodau cyffredin** er mwyn cynyddu ein heffaith i'r eithaf.

Ein prif noddwr yw **Llywodraeth Cymru**, ac rydym yn cael ein hariannu'n uniongyrchol gan **Gymru Greadigol** sy'n rhan o Adran y Celfyddydau a Chwaraeon. O ystyried rhychwant ein gwaith, rydym yn cyfrannu'n uniongyrchol at holl flaenoriaethau allweddol Cymru Greadigol gan gydweithredu'n agos hefyd â sawl adran arall fel Addysg, yr Iaith Gymraeg, Iechyd a'r Economi.

Mae ein **rhaglenni Hyrwyddo Darllen**, a ariennir gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru, yn cael eu cyflwyno'n rhannol mewn partneriaeth â Diwrnod y Llyfr, The Reading Agency, BookTrust Cymru, EmpathyLab a Read for Good. Yn gyffredinol, cydgynhyrchir y rhaglenni hyn gyda'r llyfrgelloedd a'r ysgolion gan adeiladu ar wasanaethau sy'n bodoli eisoes fel swyddogion ysgolion, darparu cynnwys trwy gwales.com a rhannu

e-llyfrau trwy ffolio.cymru. Bydd adeiladu ar y cysylltiadau presennol gyda'r undebau llafur, partneriaid masnachol a sefydliadau trydydd sector eraill yn caniatáu i ni ymestyn y gweithgareddau hyn ymhellach.

Mae ein **sefydliadau diwylliannol cenedlaethol** fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llenyddiaeth Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Cadw yn bartneriaid naturiol, ac mae'r cydweithio rhyngom yn ymwneud nid yn unig ag ymgysylltu diwylliannol ond hefyd â chefnogaeth ym meysydd busnes, gwerthu a dosbarthu.

Er mai ni yw prif ariannwr y diwydiant llyfrau yng Nghymru, sy'n cynnwys y **cymdeithasau busnes** Cwllwm Cyhoeddwr a Cyhoeddi Cymru/Publishing Wales (CCPW), mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ymgysylltu creadigol parhaus ag unrhyw un yr ydym yn ei ariannu, ac felly rydym yn credu mewn cydweithredu agored a chydgyhyrchu fel egwyddorion sy'n sylfaenol i'n gwaith.



Rydym yn cymryd rhan yn y broses o gyfnewid syniadau, dysgu ac ymgymryd â gweithgareddau ar y cyd gyda'r holl sefydliadau sy'n canolbwyntio ar **hyrwyddo'r Gymraeg** fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mudiad Meithrin, Merched y Wawr, y Ffermwyr Ifanc ac eraill.

Mae cydweithredu clòs â **gwyliau lleol a chenedlaethol** megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Gŵyl y Gelli, Tafwyl, Gŵyl Arall a Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn hanfodol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd, ac rydym yn parhau i ehangu ein partneriaethau i gael y cyrhaeddiad ehangaf posibl.

Rydym yn meithrin perthynas agos gydag **awdurdodau lleol a chonsortia addysg** i gydnabod gwahanol flaenoriaethau ac anghenion gwlad sydd mor amrywiol a daearyddol wahanol â Chymru.

Mae **partneriaethau gyda'r cyfryngau print, darlledu a digidol**, sy'n cynnwys y BBC, S4C, Radio Cymru, Radio Wales, Platfform AM, a darparwyr newyddion cenedlaethol a lleol gan gynnwys darparwyr lleol-iawn fel y papurau bro, yn ein galluogi i ymhelaethu ar weithgareddau marchnata a hyrwyddo'r cyhoeddwy'r llyfrwerthwyr, i dynnu sylw at werth darllen ac i hyrwyddo enillwyr Gwobrau Llyfrau Plant Tir na n-Og yn flynyddol. Rydym yn cydlynu rhifyn nodwedd yn flynyddol, y Wales Country Focus, yng nghylchgrawn *The Bookseller*, y cylchgrawn i'r diwydiant a ddarllenir yn fwyaf eang ac sydd hefyd â chyrhaeddiad rhyngwladol sylweddol.

Rydym yn cefnogi **arddangosfeydd rhyngwladol** o'r diwydiant cyhoeddi mewn ffeiriau llyfrau fel Frankfurt, Llundain a Bologna, trwy weithio'n agos gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyfnewidfa Lên Cymru, Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau, Llenyddiaeth Cymru, a Wales PEN Cymru.

Rydym yn cynrychioli Cymru yn y **sectorau cyhoeddi ehangach ym Mhrydain ac yn rhyngwladol** trwy ymgysylltu ag IPG (Independent Publishers Guild), Booksellers Association, cylchgrawn *The Bookseller*, Publishing Scotland a Publishing Ireland.



EIN STRWYTHUR LLYWODRAETHU

Sefydlwyd Cyngor Llyfrau Cymru ym 1961 ac mae'n Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) a lywodraethir gan fwrdd ymddiriedolwyr annibynnol, sy'n atebol i'r Comisiwn Elusennau.

Mae ein Bwrdd yn gweithredu yn unol â'n Cyfansoddiad a'n Cylch Gorchwyl a phennir ymddiriedolwr i bob is-bwyllgor wedi ystyried ei ystod benodol o sgiliau. Penodir ymddiriedolwyr ac aelodau is-bwyllgorau trwy broses recriwtio agored ac maent yn gwasanaethu am dymor penodol fel yr amlinellir yn ein Cyfansoddiad. Mae'n bosibl cyfethol aelodau i fynd i'r afael â maes arbenigedd penodol yn ôl yr angen.

Mae'r Is-bwyllgorau Datblygu Cyhoeddi Cymraeg a Saesneg yn penderfynu sut mae'r cyllid yn cael ei ddyfarnu a'n swyddogion yn darparu cefnogaeth weinyddol. Swyddogaeth ymgynghorol yn unig sydd gan y ddau is-bwyllgor arall, sy'n cefnogi'r adrannau Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen a Chyfathrebu a Marchnata.

EIN TÎM

Y Prif Weithredwr sy'n arwain
Tîm Rheoli'r Cyngor Llyfrau ac
mae'r tîm yn cynnwys y Pennaeth
Busnes a Chorfforaethol, Pennaeth
Dosbarthu a TG, Pennaeth Datblygu
Cyhoeddi, Pennaeth Llyfrau Plant
a Hyrwyddo Darllen a Phennaeth
Cyfathrebu, Marchnata a Dylunio.

Mae ein holl gyd-weithwyr yn cael
eu gwerthfawrogi'n fawr gan fod
ganddynt i gyd gyfraniad unigryw i'w
wneud i'n hymdrechion; ni all datblygu
cyhoeddi lwyddo heb isadeiledd
logistaidd sy'n cynnig gwasanaethau
safonol i'r diwydiant. Mae llesiant
staff a chydbwysedd bywyd a gwaith
yn ystyriaeth allweddol wrth wneud
penderfyniadau, ac rydym yn addasu
ein polisiau a'n cyfleoedd hyfforddi yn
barhaus i adlewyrchu'r egwyddor hon.



© Cyngor Llyfrau Cymru 2021
Darluniau gan Molly Brown, o
*O Hedyn i Ddalen / Two Rivers
from a Common Spring*

Cyngor Llyfrau Cymru,
Castell Brychan,
Aberystwyth, SY23 2JB.
Rhif Elusen Gofrestredig: 1192269

01970 624151
post@llyfrau.cymru
llyfrau.cymru

